Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 8fed Chwefror, 2011, yng Nghapel Bethania, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 8th February, 2011 at Bethania Chapel, Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Ken R. Brown (Cadeirydd)Daniel Williams (Is-gadeirydd) Lena Ashley; Sian Gwenllian; Iestyn Harris; Pat Jones; Eluned Owen; Gerald Roberts; George Smith; Pat White.

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorwyr ac i'r Clarc ar ol ei anabledd yn ddiweddar..

The Chairman extended a welcome to the Councillors and to the Clerk after his recent indisposition.

2) Ymddiheuriadau/Apologies Dim / None

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Am nad oedd y Clarc yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf, cymerwyd y cofnodion gan Cyng Daniel Williams. Penderfynwyd gadael cadarnhau'r cofnodion tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi amser i'r cofnodion gael eu darparu.

As a result of the Clerk's indisposition, the minutes of the last meeting were recorded by Cllr Daniel Williams. Agreed to confirm those minutes at the next meeting in order to allow time for those minutres to be prepared.

Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

i) Gwefan Cymunedol –49426 ymweliadau yn ystod mis Ionawr.

i) Community Web Site – 49426 hits during the month of January

5) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report

Adroddwyd nad oedd ffigyrau terfynol i law. Adroddwyd bod materion wedi eu tynnu i sylw fel tamprwydd yn codi yn toiled y merched a bod hyn wedi ei anfon at y Pensaer, Alun Meirion. Marciau pel ar y waliau ac awgrymwyd bod y Clwb Ieuenctid yn defnyddio pel mwy addas i chwaerae pel droed oddi mewn. Angen clo ar y drws yn arwain i'r oriel. Y Cadeirydd, Iestyn Harris i ymweld a thrafod cytundeb gyda Brian Ward a Nerys Williams. Penderfynwyd cynnal cyfarfod nos Fawrth i drafod lleoliad y placiau.

Reported that the final accounts were not to hand. Reported that matters had been drawn to attention namely rising damp in the female toilet and that the Architect, Alun Meirion had been notified. Ball marks on the walls and it was suggested that the Youth Club use a more appropriate ball to play football inside. A lock is required on the door leading to the gallery. The Chairman, Iestyn Harris to discuss a contract with Brian Ward and Nerys Williams. Decided to hold a meeting the following Tuesday to discuss the exact siting of the plaques.

6) **Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:**

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Ionawr. Rhoddwyd eglurhad o daliad pensiwn gan Cyngor Gwynedd a bydd hwn yn cael ei dangos yn y dyfodol fel taliad i gyn-weithiwr y Cyngor Cymuned.

A summary of payments during the month of January was confirmed.
An explanation was given as to the pension payment made by Gwynedd Council and this in future will be itemised as a payment to a former employee.

7) Ystyried Ceisiadau am Gymorth Ariannol

Penderfynnu ohirio'r ceisiadau a'i trafod nos Fawrth 15fed Chwefror

Decided to postpone the applications until Tuesday 15th February

8) Gohebiaeth/Correspondence:

1) Jones Peckover ynglyn a Phrydles Lan y Mor – cynnig trosglwyddo'r Brydles i Gyngor Gwynedd er mwyn canoli prydlesi arfordir Gwynedd i un asiant, sef Cyngor Gwynedd. Penderfyniad – ymchwilio a holi Mr Barry Davies, Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd os oes gan Gyngor Gwynedd rhywbeth arbennig dan sylw i'r rhan yma o'r Felinheli lle mae gan y Cyngor Cymuned Brydles. Clarc i weithredu.

Jones Peckover regarding lease for the foreshore for the purpose of centralising all leases for Gwynedd's coastline with one agent, i.e. Gwynedd Council. Decided – enquire of Mr Barry Davies, Maritime Officer, Gwynedd Council, if Gwynedd Council have anything in mind for this part of Felinheli where the Community Council holds a Lease. Clerk to action.

2) Un Llais Cymru / One Voice Wales

Gwahoddiad i arddwest Palas Buckingham 12fed Gorffennaf 2011

Dim ymateb

Invitation to Buckingham Palace Garden Party on 12th July 2011 – no response.

9) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Adroddwyd bod gwlybaniaeth dal i ddod i mewn i'r cloc sydd yn achosi problemau gyda bylbiau trydan sy'n goleu wynebau'r cloc. Mae hyn eisioes wedi ei gyfleu i Alun Meirion, Y Pensaer, ac mae am gysylltu a Daniel Williams er mwyn ceisio datrys y broblem.

Reported that water is still penetrating the clock and causing problems with the electric light bulbs illuminating ther clock faces. This has previously been reported to the Architect, Alun Meirion, and he will meet up with Daniel Williams with a view to rectifying the problem,.

10) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Rallt, Y Felinheli – Estyniad Deu Lawr (Cynllun Diwygiedig i'r Cais a Ganiatawyd yn 2009) - Cyng Sian Gwenllian yn datgan diddordeb.
DIM GWRTHWYNEBIAD.

Two storey extension (amended scheme to that aproved in 2009).
Cllr Sian Gwenllian declared an interest. NO OBJECTION.

59 Ffordd y Glyder, Y Felinheli – Estyniad – DIM GWRTHWYNEBIAD

Extension - NO OBJECTION

11) CYNLLUNIO'R DYFODOL / FUTURE PLANNING

Arweinwyd y drafodaeth gan Cyng Sian Gwenllian. Gofynnwyd y cwestiwn beth fuasach yn licio'i weld yn Y Felinheli yn y dyfodol**.** Mwy o arian grant ar gyfer prosiect fel Lon Las – tir-lunio'r Lon Las o ochr Pennington I Pen y Bryn, arolwg Lan y Mor, cael ymgynghoriad ar sut i wella ardal Lan y Mor, Rhandiroedd. Plac yn dangos bod Capel wedi bod ar y safle dros ffordd a Londis.
Unrhyw syniadau i'w cyflwynno i'r Cyng Sian Gwenllian.

This discussion was led by Cllr Sian Gwenllian. The question was asked what would you like to see in Y Felinheli in the future. More grant money towards projects such as Lon Las – landscaping Lon Las from Pennington to Pen y Bryn, survey on the Beach area, have a discussion on improved facilities on the Beach. Allotments. A plaque indicating a former site of a Chapel opposite Londis.

Any suggestions to Cllr Sian Gwenllian.

12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Derbyniwyd cais ar lafar drwy Cyng Sian Gwenllian oddiwrth perthynas i'r diweddar Scott Hughes yn holi'r posibilrwydd o brynnu plot wrth ochr bedd Scott Hughes. Yn dilyn trafodaeth ac eglurhad nad oedd plotiau wedi cael eu gwerthu ers 1999 a chan fod llawer i gais arall wedi ei dderbyn yn y gorffennol ac wedi'i wrthod, penderfynwyd gwrthod y cais gyda ymddiheuriad. Bwriad y Cyngor yw cydlynnu wrth y polisi benderfynwyd yn 1999.

A verbal request was received through Cllr Sian Gwenllian from a relative of the late Scott Hughes, enquiring as to the possibility of purchasing a plot next to Scott Hughes. Following a discussion and an explanation that plots had not been sold since 1999 and as many other applications had been refused in the past, it was decided, with apologies, that the request be refused. The Council's intention is to adhere to the policy implemented in 1999.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Gwaith o ail-wynebu'r Lon Las wedi gwblhau ac yn edrych yn dda.

Re-surfacing work completed and looking good.

14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau
Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – posibilrwydd o gylch deithiau wedi eu recordio ar loeren, yn dangos lluniau ar hyd y daith a bydd rhain yn dangos ar y wefan gymunedol drwy Delwedd. Mae Graham Fitch, Ramblers' Assocation, mewn trafodaeth a Mark Balaam, Cyngor Gwynedd gyda'r bwriad o gyd-weithio er mwyn gwella'r llwybrau yn Y Felinheli fel astudiaeth peilot. Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i gyflenwi nwyddau ac mae'r Ramblers' Association yn awyddus i fod o gymorth.

Arolwg Llwybrau – wedi ei gwblhau. Nifer o eitemau angen sylw. Hanner o'r holl lwybrau angen rhyw waith. Ysbwriel wedi ei adael mewn mannau. Cyng Sian Gwenllian yn nodi pethau yn yr arolwg a'i tynnu i sylw Cyngor Gwynedd.

Taflen - Clarc i gysylltu a Dafydd Einion i holi beth yw'r diweddara gyda'r pwyllgor a benodwyd ar y cyd i arwain ar gyhoeddi taflen llwybrau.

Footpaths – the possibility of circular routes being recorded on satellite navigation system, showing pictures along the route and these will be shown on the community web site through Delwedd. Mr Graham Fitch, Ramblers' Association is in discussion with Mark Balaam, Gwynedd Council, with the intention of co-working to improve the footpaths in Y Felinheli as a pilot study. Gwynedd Council are willling to supply equipment and the Ramblers' Assocation are eager to help.

Footpath Survey – report completed – number of items on the to do list. Half of all the paths require some work to be done. Rubbish has been tipped in parts. Cllr Sian Gwenllian will be noting matters referred to in the survey and drawing them to the attention of Gwynedd Council.

Pamphlet - Clerk to contact Dafydd Einion to enquire as to the situation regarding the joint committee that was appointed to lead on the publishing of a Footpaths Pamphlet.

15) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf.

Report for the next meeting.

Sylw ar Ffordd Osgoi Bontnewydd - os dewis y ffordd i fynd drwy Caeathro bydd 150 o swyddi yn mynd rhwng y garej a Pharc Glangwna. Y ffordd porffor yw'r opsiwn dewisol. Ni fydd y lon gefn i Bethel yn cael ei effeithio na chwaith Y Felinheli.

Observation on the Bontnewydd By-pass – should it be decided that the road goes through Caeathro, 150 jobs will be lost between the garage and Glangwna Holiday

Park. The purple route is the preferred option. The back route to Bethel will not be affected and neither will Y Felinheli.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Sedd Wag - penderfynwyd bod y sedd wag i'w hysbysebu.

Vacant Seat – decided that the vacancy is to be advertised

Dim materion eraill i'w trafod and the meeting finished at 9.00.p.m..
No other matters to discuss and the meeting finished at 9.00.p.m.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a ohirwyd or 8fed Chwefror hyd at Chwefror 15 yng Nghapel Bethania, Y Felinheli.

Minutes of the adjourned meeting of Y Felinheli Community Council from the 8th to the 15th February at Bethania Chapel, Y Felinheli.

Presennol / Present: Ken Brown (Cadeirydd/Chairman)
Daniel Williams (is-gadeirydd / Vice Chairman)
Cynghorwyr/Councillors Lena Ashley; Sian Gwenllian; Iestyn Harris; Pat Jones; Gerald Roberts; George Smith; Pat White.

Ymddiheuriadau / Apologies Cllr Eluned Owen

1) yn dilyn eitem 7 ar Agenda cyfarfod o'r Cyngor ar yr 8fed Chwefror pan benderfynwyd gohirio'r eitem am wythnos i'w drafod ar y 15fed Chwefror.

Following item 7 on the Agenda for the meeting of the Council on 8th February when it was decided to adjourn the item for one week to be discussed on 15th February.

Ystyried Ceisiadau am gymorth ariannol / Consider requests for financial assistance

Sylwadau Arweiniol / Opening Remarks

Eglurwyd bod llawer cais wedi ei dderbyn oddiwrth amrywiaeth o wasanaethau a chymdeithasau oddimewn a thu allan i gylch lleol Y Felinheli.

Explained that many applications had been received from organisations and services both within and outside the locality of Y Felinheli.

PENDERFYNWYD – Ystyried ceisiadau oddimewn cylch lleol Y Felinheli yn union fel mae'r polisi wedi bod yn y gorffennol.

DECIDED – Consider applications within the locality of Y Felinheli in accordance with past policy.

Wedi trafod pob cais yn unigol penderfynwyd rhannu arian fel a ganlyn:

After considering each single application it was decided to share the money as follows:

£200 - Y Goriad - tuag at gostau argraffu.
£150 - Clwb y Felin (Henoed) tuag at gostau'r Clwb
£500 - Gwyl y Felin tuag at gynnal yr Ŵyl
£400 - Cyfeillion yr Ysgol tuag at brosiect o osod cysgodfa ar gyfer yr adran iau.
£200 - Cylch Meithrin Y Felinheli tuag at adnoddau newydd i'r Cylch
£400 - Clwb Peldroed Y Felinheli tuag at wariant ar y cantin a'r ystorfa
£ 50 - Felinheli Rainbows tuag at gemau ac offer ar gyfer genethod 5 – 7 oed
£100 - 3rd Portdinorwic Guides tuag at offer ar gyfer coginio a thent newydd
£100 - Brownies tuag at brynu nwyddau, offer a rhentu caban yn y Felin Fach
£500 - Clwb Pêl-droed Ieuenctid i brynu offer y ogystal â chostau llogi neuaddau ar gyfer ymarferion
£150 - Pwyllgor Regatta tuag at cynnal y Regatta yn 2011

Yn ogystal a'r uchod mae'r Cyngor yn ol eu Rheolau Sefydlog yn rhoi £500 yn flynyddol i Eglwys Santes Fair Llanfairisgaer ar gyfer cynnal a chadw Mynwent yr Eglwys.

In addition to the above, the Council, in accordance with their Standing Orders, donate the sum of £500 to St Mary's Church, Llanfairisgaer towards the repair and maintenance of the Church cemetery.

Cae Aml Bwrpas - Mae'r Cyngor wedi ystyried ceisio grantiau ar gyfer lleoli cae aml bwrpas yn ardal Pennington's, Lon Las fydd yn fantais ac yn adnodd gwerthfawr i'r pentref. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i fwrw mlaen gyda'r prosiect ond naturiol yn cefnogi'r prosiect.

Derbyniwyd cais oddiwrth Mr Emyr Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Y Felinheli yn amlinellu eu gobaith gyda'r prosiect. Mae cais cynllunio eisioes wedi ei ganiatau ac mae angen arian i gychwyn y brosiect. Bydd grant o £1000 yn gyfateb i amcan bris cwmni Wakemans ar gyfer prisio'r prif waith ac mae Cyngor Gwynedd a Chynllun Môn a Menai wedi ymateb yn bositif iawn hyd yma i ariannu'r prosiect. Y cam cyntaf fydd gwaith prisio'r ac fe fyddai cael arian ar gyfer y gwaith hwnnw yn help mawr I annog y brosiect yn ei flaen.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol cyfrannu swm o £1000 er mwyn cychwyn y gwaith prisio ac er mwyn i'r prosiect cyffrous newydd yma gael ei wireddu.

Multi-purpose all weather pitch - The Council have considered applying for grants to establish a multi-purpose allweather playing area in the Pennington Area that would prove to be a worthwhile benefit to the village. At present, the Community Council are unable to proceed with the project but obviously support he project.

An application had been received from Mr Emyr Roberts, Chairman of the Felinheli Football Club, outlining their hopes for the project. Planning application has already been granted, but money is needed to start the project. A grant of £1000 would meet

the estimate from Wakeman's for pricing the main works and Gwynedd Council and the Mon Menai Plan have responded positivelyso far to finance the project. The first step is to have the major works costed and to receive a grant towards that work will be of great assistance to promote the project.

Following a discussion, it was unanimously agreed that the sum £1000 be donated by way of a grant to commence the costing work and for this new exciting project to materialise.

Cadeirydd / Chairman

8fed Mawrth 2011
8th March 2011